
AM DDIM

Cyfnodolyn yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 255 Awst - Medi 2025

# Gwyliedydd



# O'R GADAIR
# AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**



Gyda'r rhifyn hwn o'r *Gwyliedydd*, mae fy mlwyddyn olaf fel Cadeirydd yn yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru yn cychwyn. Dechreuais fel Cadeirydd hen Synod Cymru ar 1 Medi 2013, am gyfnod cychwynnol o chwe blynedd. Ar ôl llawer o weddïo, meddwl a cheisio ewyllys Duw, derbyniais estyniad i'r penodiad o 1 Medi 2019 ymlaen, yn unol â dymuniad y Synod a'r Gynhadledd Fethodistaidd. Cytunwyd y byddwn yn aros am bum mlynedd arall tan Awst 2024. Cyn diwedd y cyfnod hwnnw, wrth gwrs, sefydlwyd ein Synod newydd ar y cyd gyda Wales Synod, yn gweithio trwy'r ddwy iaith. Gyda'r Synod newydd wedi'i sefydlu, gan roi mwy o sicrwydd i ddyfodol Cylchdaith Cymru, roeddwn i'n disgwyl symud ymlaen yn ystod haf 2024, ac yn credu mai dyna beth oedd ewyllys Duw i fi ac i'r Synod. Fodd bynnag, cefais fy ngwahodd am gyfnod pellach o ddwy flynedd, tan Awst 2026. Mae ein disgyblaeth fel gweinidogion yn bwysig i fi, felly cytunais. Trwy ras Duw, rwyf wedi parhau yn y rôl hyd yn hyn, ac rwy'n ymddiried yn Nuw am y flwyddyn sydd i ddod, cyn i mi adael Cymru. Mae'r daith wedi bod yn un hir, ond hefyd yn dda, efo cyd-deithwyr ardderchog!

Felly, mae'n ddiwedd cyfnod i fi, ac rwy'n edrych yn ôl yn ogystal ag edrych ymlaen. Bûm yn meddwl am encil wnes i fynd arno yn Sheldon, Dyfnaint, efo Cymdeithas Mair a Martha (https://www.sheldonretreat.com/) cyn i mi gychwyn yn y rôl, yn ôl yng ngwanwyn 2013. Mae gan Sheldon labyrinth mawr, hyfryd, y gallwch ei gerdded wrth weddïo. Cofiaf gerdded y labyrinth ryw nos, gan ofyn i Dduw sut roeddwn i – merch, Saesnes, dysgwraig – yn mynd i ddilyn y gwroniaid a aeth o'm blaen, gweinidogion teilwng, Cymraeg. Sut roeddwn i am ddilyn Cymry fel y Parchedigion Patrick Slattery, Martin Evans-Jones, WO Thomas, Hugh Rowlands…? Roeddwn i wir yn stryglo efo'r cwestiwn o flaen Duw. Yn sydyn, daeth geiriau i'm calon: "I don't want you to follow them, I want you to follow me." Dyna beth rwyf wedi ceisio ei wneud ers hynny – ac rwy'n dweud 'ceisio' oherwydd gwn fy mod i'n methu yn aml, ac mae Duw a'i bobl wedi gorfod bod yn amyneddgar efo fi.

Ochr yn ochr â cheisio dilyn neb ond Duw yn Iesu Grist ar hyd y 12 mlynedd diwethaf, mae geiriau Iesu o efengyl Mathew 6:33 wedi bod yn bwysig i fi, sef "Ceisiwch yn gyntaf deyrnas Dduw". Fel gweinidog cylchdaith yn yr Eglwys Fethodistaidd, mae rhywun yn llawer mwy 'hands-on' na Chadeirydd yn nhermau gwaith bugeiliol, meithrin eglwys a'r aelodau, gweithio yn y gymuned, derbyn aelodau newydd ac yn y blaen. Gwelais eisiau hynny fel Cadeirydd, a hyd yn oed fel Arolygydd Cylchdaith Cymru (swydd y bûm ynddi hefyd am ryw 8-9 o flynyddoedd). Am y rhan fwyaf o'r cyfnod hwn, nid oedd gennyf ofal bugeiliol am gapeli. Gwaith gweinyddol, strategol a biwrocrataidd oedd yn mynd â'r rhan fwyaf o fy amser, gan ymdrin â strwythurau a Rheolau Sefydlog yr Eglwys. Mae'n fraint, ond roedd rhaid i mi gofio am bwysigrwydd teyrnas Dduw i Iesu ac felly i'w ddilynwyr. Ddywedodd o ddim, "Ceisiwch yn gyntaf bwyllgorau a chynghorau"! Dywedodd, "Ceisiwch yn gyntaf deyrnas Dduw," ac rwyf wedi ceisio cofio'r gorchymyn hwn. Dyna'r nod neu ben y daith – cam ar y ffordd yw pob peth arall. Teyrnas Dduw yw ein nod, ac mae eglwys Crist yn fodd i deithio tuag at y deyrnas yn ei holl gyflawnder. Mae'n bwysig ceisio osgoi cymysgu ewyllys Duw a'i deyrnas efo'r eglwys a'i hewyllys hi, weithiau!

Trydydd peth sydd wedi bod yn agos at fy nghalon ar y daith yn ystod y 12 mlynedd diwethaf yw themâu 'Ein Galwad' yr Eglwys Fethodistaidd (https://www.methodist.org.uk/about/our-calling/), sef Addoli, Dysgu a Gofalu, Gwasanaethu ac Efengylu. Dyma bedwar maes allweddol lle mae'r Eglwys Fethodistaidd yn ceisio ymateb i gariad Duw yng Nghrist a bod yn ddisgyblion, bob dydd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r themâu hefyd wedi gosod sylfaen ar gyfer 'Ffordd Fethodistaidd o Fyw' (https://www.methodist.org.uk/faith/a-methodist-way-of-life/), ond mae yna rywbeth arbennig am themâu gwreiddiol 'Ein Galwad' i fi. Felly, yn ystod y flwyddyn gyfundebol hon, wrth i mi barhau i gyfrannu i'r *Gwyliedydd*, rwyf am fyfyrio ar y themâu hyn, fesul un. Mae'r ffordd rydym ni'n ymateb i themâu 'Ein Galwad' fel Cristnogion wedi newid, nid yn unig ers 2013 ond yn arbennig ers i fi gychwyn fel gweinidog yn 1993. Mae'n ddiddorol ystyried sut. Gobeithio y bydd meddwl am hyn yn ein calonogi ni i gyd fel dilynwyr Iesu, sy'n ceisio teyrnas Dduw.






# Gwyliedydd

**CYFNODOLYN CYMRAEG**
**YR EGLWYS FETHODISTAIDD**

Sefydlwyd 1877
– Cyfres Newydd 1987

**RHIF 255**
**AWST – MEDI 2025**

**Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Cylchdaith Cymru"**

**(NID "i'r Gwyliedydd" os gwelwch yn dda)**


**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**



**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinjbethel@gmail.com

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@gmail.com


**DYDDIAD CAU**
10 MEDI 2025





Dyluniwyd gan Ffrwd Cyfyngedig
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa


# Diolch

**Diolch yn fawr iawn am y rhoddion caredig a dderbyniwyd unwaith eto tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r *Gwyliedydd*.**

Capel Annibynwyr Bethel, Arfon £25-00
M G Thomas, Penmachno £20-00
Capel Ebeneser, Treuddyn £20-00
Dr June Cooper, Llanfairpwll £25-00
Helen Coetmor Williams, Llanllechid £10-00
Dienw £50-00

**Cyfanswm £150-00**



# Gweithredu dros Blant

**Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at Gweithredu dros Blant, sydd wedi dod i law yn ddiweddar:**


Capel Ebeneser, Treuddyn £20.00
Salem, Pentre Helygain £40.00

Anfonwyd cyfanswm o £60.00 yn enw Cylchdaith Cymru.
Gyda diolch am bob cyfraniad.

Rhaghysbysiad – Ymgyrch Casglu Anrhegion Nadolig. Byddwn yn lansio ein hymgyrch i gasglu anrhegion Nadolig ym mis Medi. Edrychwch allan am y taflenni.

Gwasanaeth Sul Gweithredu dros Blant – Mae fersiwn Cymraeg o'r gwasanaeth ar gael gennym ni os gofynnwch. Er bod y Sul penodol wedi mynd heibio, mae'r deunydd yn addas i unrhyw Sul.

**Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan**
Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4FF
01978 756717 cwrteden@gmail.com



## CYMDEITHAS HANES YR EGLWYS FETHODISTAIDD YNG NGHYMRU

Bydd yr hanesydd poblogaidd Bob Morris yn traddodi darlith ym Mhabell y Cymdeithasau 2 ar Faes y Brifwyl yn Wrecsam a'r testun fydd Cofio Tegla. Prynhawn dydd Mawrth 5ed o Awst 2025, 3.30pm.

**Sylwer ar ebost newydd Robin, robinjbethel@gmail.com**

Llun y clawr: Llandegla-yn-Iâl gyda Rhostir Llandegla (SoDdGA) yn y cefndir, gan Llywelyn2000 https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0/

# “LE QUATTRO STAGIONI” – Y PEDWAR TYMOR

## gan Gareth Blainey



Eleni yw trichanmlwyddiant cyhoeddi un o’r darnau o gerddoriaeth glasurol mwyaf cyfarwydd: “Le quattro stagioni” sef Y Pedwar Tymor, gan yr Eidalwr Antonio Vivaldi (1678-1741). Grŵp o bedwar ‘concerto’ i unawdydd feiolin a cherddorfa o offerynnau llinynnol yw’r rhain ac mae’r pedwar yn cynnwys tri symudiad yr un sy’n portreadu ‘Gwanwyn’, ‘Haf’, ‘Hydref’ a ‘Gaeaf’.

Does wybod yn union pryd y cawson nhw eu cyfansoddi gan Vivaldi – tua 1718-1720 fwy na thebyg – ond cyhoeddwyd ‘Y Pedwar Tymor’ gan yr argraffwr o Ffrainc Michel-Charles Le Cène yn ei weithdy ym mhrifddinas yr Iseldiroedd, Amsterdam, yn 1725.

Mae cerddoriaeth Vivaldi yn y pedwar ‘concerto’ yn ddarlun trawiadol o wahanol elfennau o bob tymor. Yn symudiad cyntaf ‘Gwanwyn’ mae’r feiolin yn dynwared adar yn canu ac yn yr ail symudiad mae’r fiola yn portreadu ci bugail yn cyfarth. Yn symudiad cyntaf ‘Haf’ clywir seiniau tri aderyn gwahanol – y gwcw, y golomen a’r peneuryn (goldfinch). Dathliad o’r cynhaeaf a gwerinwyr yn dawnsio sydd yn symudiad agoriadol ‘Hydref’ ac yn symudiad cyntaf ‘Gaeaf’ mae Vivaldi’n cyfleu tywydd rhewllyd y tymor hwnnw yn ei gerddoriaeth.

Mae’n gyfanwaith gwefreiddiol, ond er ei fod yn boblogaidd iawn heddiw wnaeth y darn ddim ennill ei blwyf yn y byd cerddorol tan fwy na dau gan mlynedd ar ôl marwolaeth Vivaldi. Yn 1947 recordiodd y feiolinydd o’r Unol Daleithiau, Louis Kaufman ‘Y Pedwar Tymor’ yn Neuadd Carnegie yn Efrog Newydd, a hynny’n eironig tra oedd storm o eira y tu allan i’r neuadd! Enillodd recordiad Kaufman wobr y “Grand Prix du Disque” yn 1950 a dyna ddechrau twf ym mhoblogrwydd y darn.

Cafodd ei recordio gan nifer o feiolinyddion gorau’r byd yn cynnwys Yehudi Menuhin, Jascha Heifetz ac Itzhak Perlman – mae cryno-ddisg recordiad Perlman o’r darn gen i. Yn 1989 recordiodd y feiolinydd o Loegr Nigel Kennedy ‘Y Pedwar Tymor’ gyda Cherddorfa Siambr Lloegr. Gwerthwyd mwy na thair miliwn o gopïau o recordiad Kennedy ledled y byd ac ar 1 Mehefin eleni perfformiodd y darn cyfan yng Nghanolfan Southbank yn Llundain i nodi’r ffaith fod tri chan mlynedd ers ei gyhoeddi. Hefyd yn Llundain cafodd y trichanmlwyddiant ei ddathlu gyda pherfformiad o un o’r pedwar ‘concerto’ – ‘Haf’ – gan y Ffrancwr Théotime Langlois de Swarte yn ystod un o gyngherddau’r Proms yn Neuadd Frenhinol Albert ar 20 Gorffennaf.

Draw yn yr Eidal, mamwlad Vivaldi, erbyn i’r erthygl hon gael ei chyhoeddi bydd ‘Y Pedwar Tymor’ wedi cael ei berfformio mewn cyngerdd yn Arena Verona

## **Y Methodist yn Ninbych:** Apêl am wybodaeth

Ymysg y cannoedd o lyfrau sydd yn fy meddiant mae tua dwsin yn hynod o bwysig i mi. O’r dwsin yma mae un yn arbennig iawn sef Y Methodist Cyfrol 2, casgliad 12 mis o gylchgronau misol Cylchdaith Dinbych 1903.

Mae’r golygydd, Y Parch M Evan Jones, yn cyfeirio yn rhif un, Ionawr 1903, at y derbyniad a gafodd y cylchgrawn drwy’r Gylchdaith a thu hwnt, ac yn gobeithio am ddyfodol llwyddiannus iddo. Roedd y cylchgrawn wedi tyfu yn ystod y flwyddyn gyntaf, gan ddechrau ei ail flwyddyn gyda’r enw Y Methodist – enw priodol iawn, meddai’r golygydd. Gwnaeth apêl am ohebwyr, ac ar i ieuenctid y gylchdaith ysgrifennu nodiadau byrion ar gwestiynau diddorol i’w cyhoeddi nawr ac yn y man. Mae’r gyfrol hefyd yn cynnwys nifer o erthyglau yn Saesneg sydd yn amlwg wedi eu cynnwys o gyhoeddiad Methodistaidd arall.

Mae’r cylchgrawn yn cynnwys newyddion chwe eglwys y gylchdaith: Pendref a Salem Dinbych, Llanelwy, Bodfari, Henllan a Llandyrnog; nodiadau cylchdeithiol ac ati; y Maes Llafur a hanes y gymanfa ysgolion a’r arholiad; bedyddiadau a marwolaethau. Ceir erthyglau hynod o ddiddorol a defnyddiol i’r hanesydd gan J Harrison Jones, am ddechreuad yr achos yma yn Ninbych ac agor capel Pendref, sef y capel Wesleaidd Cymraeg cyntaf “yn y byd” yn 1802.

Yn rhifyn Rhagfyr 1903 mae’r golygydd yn ffarwelio â’r darllenwyr, gan ddiolch am y derbyniad a gafodd y cylchgrawn gan Gylchdaith Dinbych. Nid oedd wedi bodloni pawb ... ac meddai’r golygydd: “faint o help a gafwyd gan y grwgnachwyr i’w wneud yn llwyddiant?” Diolchodd i’r cyfranwyr a’r hysbysebwyr, na fuasai wedi bod yn bosibl cyhoeddi’r cylchgrawn hebddynt.

Mae dau gwestiwn yr hoffwn eu datrys: 1. Beth oedd enw’r cylchgrawn cyntaf yn 1902? a 2. A oes copi ar gael yn rhywle? Os oes rhywun â’r atebion, hoffwn glywed gennych.

**Medwyn Jones**



# Dysgu Cymraeg

## gan Angharad Tomos

Digwyddodd rhywbeth anghyffredin yn ein capel ni yn ddiweddar. Dyna lle roedd pawb wedi cyrraedd erbyn deg, ac yn cyfarch ei gilydd ac yn sôn am y tywydd a hyn a llall. Roedd rhywun o'r pentref wedi dod i'r gwasanaeth, ond sydd ddim yn arfer mynychu'r capel. Setlodd pawb i lawr, codi i ganu'r emyn cyntaf, a darllenodd y pregethwr air o'r Ysgrythur. Estynnodd pawb yn reddfol am eu llyfr emynau gan ei bod yn amser canu’r ail emyn.

Bryd hynny, clywsom sŵn anghyfarwydd, sŵn tawel, sŵn crio. Nid fod y fath sŵn yn ddieithr i gapel, ond fe'i caniateir ar adegau penodol, megis cynhebrwng. Pan fydd pobl yn crio mewn cynhebrwng, mae'n dderbyniol, ond mae dipyn yn od clywed sŵn crio mewn oedfa foreol...a dipyn yn anghyfforddus.

Wrth i bawb arall lynu at y ddefod a chychwyn canu, symudodd un person at y sawl oedd yn crio. Yr un oedd yn crio oedd yr un na arferai ddod i'r gwasanaeth. Fe'i cysurwyd, ac yna aeth y cysurwr yn ôl i'w sedd. Parodd hyn i mi fyfyrio am weddill y gwasanaeth.

**anghyffredin** – unusual
**cyfarch** – to greet
**mynychu** – frequent
**Estynnodd** – reached (for)
**(g)reddfol** – instinctively
**anghyfarwydd** – unfamiliar
**cynhebrwng** – funeral
**anghyfforddus** – uncomfortable
**adwaith** – reaction
**cyson** – regular
**f/mynychwyr** – those who frequent
**ymddygiad** – behaviour

O glywed geiriau y Beibl ac ambell emyn o'r newydd, nid yw crio yn adwaith dieithr o gwbl. Pam felly y dylem synnu? Fyddai o ddim yn syniad da i ni'r mynychwyr cyson geisio clywed y Gair drwy glustiau newydd?

Ac o glywed rhywun yn crio mewn oedfa, a'r person hwnnw yn fynychwr newydd, onid symud o'n sedd i gysuro ddylai ymddygiad normal Cristion fod? Edmygwn ymateb y cysurwr.


Digwyddiad bach, ond un barodd i mi feddwl.

## CANEUON FFYDD – MYNEGAI YSGRYTHUROL

Annwyl Olygyddion
Mae llawer iawn o’n hemynau yn dyfynnu o’r ysgrythur neu yn cyfeirio at rannau ohoni, a gall fod yn ddefnyddiol i’r sawl sy’n llunio oedfaon i weld ble mewn emyn y ceir dyfyniad neu gyfeiriad at ryw adnod benodol neu ryw ran o’r Beibl.

Gyda hynny mewn golwg, paratowyd Mynegai Ysgrythurol i Caneuon Ffydd, yn y gobaith y gall fod o gymorth i’r sawl sy’n arwain gwasanaethau. Gellir gweld y mynegai ar wefan Caneuon Ffydd, https://caneuonffydd.cymru/mynegai, a gellir ei lawrlwytho oddi yno. Croesewir ychwanegiadau neu gywiriadau – gellir cysylltu â mi yn y cyfeiriad isod.

Yn gywir,
**Rhidian Griffiths**
Cadeirydd Pwyllgor Cyffredinol Caneuon Ffydd
rhcgriffiths@btinternet.com



## Sut le yw’r Gynhadledd?

### gan Miriam Moules

Mae’r Gynhadledd Fethodistaidd yn lle prysur. Llawer i’w wneud, er bod amser hefyd i weld hen ffrindiau a gwneud ffrindiau newydd. Llawenydd oedd cael ymuno â mil o bobl yn ystod yr addoliad, i ganu ‘O am dafodau fil mewn hwyl’ a chaneuon fel ‘10,000 reasons’ – rhywbeth i apelio at bawb. Emynau traddodiadol wedi’u bywiocáu, emynau newydd hefyd yn cael eu canu ag arddeliad.

Mae’r Gynhadledd yn lle i feddwl yn galed. Buom yn trafod materion y dydd a sut y dylem ymateb iddynt – er bod lle hefyd i anghytuno, wrth inni gyd-fyw, a chyd-fyw yn well, a ninnau’n arddel argyhoeddiadau gwahanol i’n gilydd.

Mae’r Gynhadledd yn lle tawel, yn enwedig wrth rannu’r Cymun boreol ac ar yr holl adegau pan deimlem gyffyrddiad presenoldeb Duw. Canwyd “Tyrd, Ysbryd Glân” dro ar ôl tro, gan ein galluogi i gofio o hyd beth sydd wir yn bwysig.

Mae’r Gynhadledd yn rhan o bwy ydym ni fel Eglwys Fethodistaidd. Fe wnaethom drafod sut i groesawu, sut i gynnwys a sut i wasanaethu, sut i nesáu at y Duw byw yn ein haddoliad, ein tystiolaeth, a’n bodolaeth.








# Jerwsalem Wrecsam

Wrth yrru ar hyd Ffordd Gaer i mewn i ganol Wrecsam, byddai'n ddigon hawdd methu Jerwsalem. Nid yw'n edrych fel capel gan mai hen dŷ o'r cyfnod Art Deco ydyw, a oedd yn arfer perthyn i'r llawfeddyg enwog, Mr Ray Aiyer, arbenigwr llygaid a ddaeth yma o'r India. Mae olion o ble roedd yn arfer gweld ei gleifion preifat yn dal i fodoli.

Pan ddechreuwyd ailddatblygu Wrecsam yn y 1960au/70au roedd yn rhaid dod o hyd i leoliad newydd i eglwys Jerwsalem am fod yr adeilad gwreiddiol yn Egerton Street i gael ei ddymchwel. Nid peth hawdd oedd dod o hyd i leoliad addas, ond wedi rhai blynyddoedd daethpwyd o hyd i Keston Lodge, tŷ ar gornel Pen-y-Maes Ave a Ffordd Gaer. Codwyd estyniad ar y cefn a dyma oedd y capel newydd. Crëwyd fflat hefyd yn llawr cyntaf y tŷ, sef y mans newydd.

Agorwyd y capel newydd ym mis Gorffennaf 1972, gyda chyfres o ddigwyddiadau ac oedfaon. Y Parchg Gwilym R Tilsley oedd y gweinidog pan agorwyd y capel, er bod y gwaith wedi dechrau yn nhymor y Parchg I Elfyn Ellis a'i barhau trwy dymor y Parchg Eric Edwards. Cafwyd cyfle i ddathlu 50 mlwyddiant yr adeilad ar ei newydd wedd yn 2022. Yn dilyn y Parchg Gwilym R Tilsley daeth y Parchg Gwilym O Jones ac yna y Parchg Dennis Griffiths. Bu'r tri hyn yn eu tro yn byw yn y fflat. Pan ddaeth y Parchg Marc Morgan yn 2012, am fod ganddo fwy o eglwysi a hefyd bod tenantiaid yn y fflat, fe brynwyd mans yng Ngwersyllt sef Llety'r Bugail.

Yn wreiddiol roedd Jerwsalem yn rhan o Gylchdaith Coedpoeth, yna fe aeth yn Gylchdaith Maelor a phan ddaeth yr ardaloedd i fodolaeth daeth yn rhan o Ardal Glannau Maelor. Pan ddaeth yr achos i ben yng Nghapel Victoria Road, ymunodd yr aelodau oedd yn weddill yno â Jerwsalem.




Ers sawl blwyddyn bellach mae Hosbis Tŷ'r Eos wedi defnyddio maes parcio'r capel yn ystod yr wythnos ac os bydd arnynt angen cynnal oedfa arbennig maent yn defnyddio'r capel. Un arall sy'n defnyddio'r capel yw'r Tad Deiniol, o'r Eglwys Uniongred. Cynhelir gwasanaeth ar y Sadwrn olaf ym mhob mis, ac mae hyn yn digwydd ers blwyddyn bellach.

Mae'r tir o amgylch yr adeilad yn cael ei gynnal gan y Gwasanaeth Prawf. Mae criw sydd angen ad-dalu i'r gymuned yn torri'r gwair ac yn tacluso o amgylch, ac maent hyd yn oed wedi peintio tu mewn i'r capel ei hun. Fe aeth un ohonynt yn ei flaen i ddilyn cwrs mewn 'peintio ac addurno' yn y coleg o ganlyniad i beintio'r capel.

Er bod nifer yr aelodau wedi mynd i lawr dros y blynyddoedd mae'r rhai sydd yma yn ffyddlon a gweithgar a'r swyddogion yn gweithio'n galed i gadw'r achos yn agored. Yn ogystal â'r oedfa ar y Sul, sydd bellach tua 2 y mis, cawn gyfle i gymdeithasu mewn digwyddiadau fel cinio Nadolig mewn bwyty.

*Y Parchg Marc Morgan*



# Mae'n rhaid i ni fyw a gweithredu mewn gobaith

## gan Glyn Tomos



Dwi ddim yn gwybod beth yw eich profiad chi ond lle bynnag dwi'n troi y dyddiau hyn mae'r byd i'w weld yn mynd yn wallgof. Mae rhywun yn ceisio gwneud synnwyr o'r hyn sydd yn digwydd o'i gwmpas. Mi fyddaf yn holi fy hun yn ddyddiol, ai fi sydd yn anghywir neu a ydw i wedi camddeall rhywbeth sydd yn amlwg iawn i bawb arall. Ydw i wedi cael hyn a hyn yn gywir? Dwi'n cwestiynu fy hun yn gyson a cheisio gwneud synnwyr o'r cyfan. Tydi o ddim yn syndod bod pobl yn teimlo bod ein harweinwyr gwleidyddol wedi ein gadael i lawr a bod gwleidyddiaeth wedi gwneud cam efo ni.

Mae awyrgylch rhyfelgar wedi lledaenu ar draws y byd, sydd yn ein hatgoffa o gân Dafydd Iwan 'Maen nhw'n paratoi at ryfel'. Mae yna bwyslais dyddiol ar gynyddu gwariant ar arfau rhyfel drwy honni bod hyn am ein cadw yn ddiogel – er y gwyddom mai heddwch yw ein hunig obaith i hynny ddigwydd. Pam, o pam bod dyn yn dal i feddwl bod rhyfel neu fygythiad o ryfel yn mynd i ddatrys unrhyw beth. Mae hanes wedi dangos i ni nad ydy hynny yn wir.

Un o'r eitemau newyddion mwyaf trist i mi ei chlywed o Gymru yn ddiweddar oedd un am y croeso mawr oedd i fuddsoddiad ariannol sylweddol pellach gan Lywodraeth Prydain tuag at fusnesau yn ne Cymru sydd yn creu arfau rhyfel. Roedd y newyddiadurwr yn holi pobl ifanc a'r rheiny yn ymfalchïo bod hyn yn mynd i ddod â mwy o waith a sgiliau newydd iddynt. Rydan ni yn dysgu ein pobl ifanc ni i greu arfau i ladd.

Felly beth ydy'r ateb? Dywedir bod gwneud y weithred leiaf posib yn gallu gwneud gwahaniaeth ac mae'n bwysig ein bod ni yn gafael ar hyn wrth geisio gwneud synnwyr o'r dinistr a'r lladd enbyd sydd yn digwydd ledled y byd. Mae gwylio yr holl erchylltra, miloedd o blant ac oedolion diniwed yn cael eu lladd, yn ein digalonni a'n tristáu yn llwyr ac yn ein gyrru i feddwl ein bod yn ddiymadferth. Mae rhaglenni newyddion ar y teledu wedi mynd yn ormod i nifer, fel eu bod yn teimlo na allant barhau i wylio oherwydd fod y cyfan yn creu teimlad o anobaith mawr.

Eto, er hyn i gyd, mae'n dda i ni wrth unigolion neu grwpiau o fewn ein cymdeithasau sydd yn barod i afael yn y gobaith lleiaf posib a dangos ein cariad a chofio am rai sydd wedi aberthu cymaint hyd yn oed at farwolaeth.

Yn ddiweddar roeddwn yn un o hanner cant o bobl oedd wedi ymgynnull ar un o strydoedd tref Caernarfon mewn gweithred symbolaidd dros heddwch. Gweithred dawel oedd hon i gofio'r rhai a gollwyd yn Gaza. Gosodwyd parau o esgidiau ar y llawr i'n hatgoffa ni mai pobl gyffredin a laddwyd – pobl gyffredin wrth eu gwaith a'u dyletswyddau dyddiol.

Yn y digwyddiad darllenwyd cerddi gan rai o feirdd Palesteina. Roedd gwrando ar y cerddi yn brofiad poenus iawn. Er bod y digwyddiad yn un emosiynol a thrist iawn, roedd yn gyfle yng nghanol prysurdeb bywyd i roi ychydig amser o'r neilltu i feddwl ac i weddïo dros y miloedd diniwed sydd wedi eu lladd a phawb a adawyd mewn anobaith. Roedd yn drawiadol faint o bobl oedd yn stopio wrth gerdded heibio gyda nifer yn emosiynol iawn yn gwrando.

Gallwn gymryd cysur a gobaith o'r hyn a ddywedwyd gan Bob Geldof a fu'n rhannol gyfrifol am gynnal cyngerdd 'Live Aid', pum mlynedd ar hugain i eleni, pan heidiodd mwy na 170,000 o bobl i Stadiwm Wembley a Stadiwm John F Kennedy yn Philadelphia yn yr Unol Daleithiau i wylio perfformiadau gan brif artistiaid pop y cyfnod er mwyn codi arian yn sgil y newyn yn Ethiopia.

Roedd Geldof wedi ei dristáu wrth weld adroddiadau newyddion am blant ac oedolion yn eu miloedd yn marw o newyn a hyn wedi ei sbarduno i ddod â cherddorion at ei gilydd i ryddhau cân o'r enw 'Do They Know It's Christmas?' a chynnal cyngerdd Live Aid.

'Fel y gwelwch,' meddai, 'fe allwn newid pethau os penderfynwn ni wneud hynny. O leiaf ar gyfer rhai pobl. O leiaf ar gyfer y rhai sydd wedi eu brifo fwyaf a rhai mwyaf anghenus ein byd. Fe allwn wneud hynny. Mi ydan ni wedi profi hynny'.

Mewn rhaglen deledu yn ddiweddar oedd yn edrych ar yr hyn a ddigwyddodd bum mlynedd ar hugain yn ôl, dywedodd un o gerddorion mwyaf adnabyddus Prydain ar y pryd nad yw un gân neu gyngerdd yn mynd i newid pethau ond mae o leiaf yn mynd i blannu hedyn. Yn yr ysbryd yna heddiw mae'n rhaid i ni fyw a gweithredu mewn gobaith, gam wrth gam, gweithred wrth weithred.

Diolch i Dylan Morgan am y cyfieithiad o'r gerdd isod:-

**GEIRIAU PLENTYN DIENW. GAZA, IONAWR 2024**

Dw i isio gadael y bywyd hwn.
Mae marwolaeth yn well na hyn, ar fy llw.
All fy mrodyr a chwiorydd ddim cysgu.
Maen nhw'n gweld y pethau hyn ac allan nhw ddim cysgu.
Rydan ni'n effro drwy'r nos ac yn gweddïo.
Pethau fy nhad, mae'r cwbl wedi mynd.
Does dim byd ar ôl. Edrychwch.
Mae'n wir mai dim ond ein mamau a'n tadau sydd gennym
Yn y byd hwn.
Mae'n wir nad oes gennym neb arall.
Mae'n wir fod popeth wedi mynd rŵan.
Mae'n ysgrifenedig a digwyddodd. Gobeithio un dydd y bydd gennym do gwell
na'r holl bebyll hyn.
Ar fy llw, dw i isio i'r rhyfel hon orffen,
Dyna'r hyn dw i isio fwyaf.
Ar fy llw.

# O'R LLAN

gan y **Canon Idris Thomas**



### BYDDIN GRISTNOGOL YN HAUL MEIRIONNYDD

Yn niwedd chwedegau'r ganrif ddiwethaf, fel ymgeisydd ifanc am Urddau yma yn Esgobaeth Bangor, cefais brofiadau gwerthfawr iawn un haf yn ystod gwyliau'r coleg. Un o fy arwyr, y Canon R.Glyndwr Williams, oedd warden yr holl ymgeiswyr yn ein hesgobaeth ac ef fyddai'n sicrhau ein bod yn cael amrywiol brofiadau. Yr haf hwnnw cefais fynd gyda chyfaill o'r Esgobaeth a oedd hefyd yn ddarpar offeiriad, i ardal Dyffryn Ardudwy ym Meirionnydd. "Byddwch yn cydweithio yno efo criw Byddin yr Eglwys," meddai'r Canon Glyndwr.

Cawsom ein hunain mewn maes carafanio sylweddol o'r enw "Sunny Sands" ar yr arfordir hyfryd. Roedd enw'r lle yn gweddu i'r dim oherwydd tra oeddem yno cawsom dywydd tesog braf. Un o'r offeiriaid lleol sef Sydney Harold Willcox oedd y cysylltydd yn cadw golwg arnom. Cawsom garedigrwydd mawr ganddo ef a'i deulu hyfryd ac mor ddiolchgar oeddem. Ein gwaith oedd helpu i drefnu digwyddiadau amrywiol yn y gwersyll, ar lafar ac ar gân, i blant yn bennaf, gyda gogwydd Cristnogol syml, diddorol a llawn hwyl. Roedd criw Byddin yr Eglwys mor ddeheuig, dawnus a didwyll yn eu cyflwyniadau fel bod plant o bob oed ac oedolion o bob cefndir yn ymateb yn dda. Do, cefais haf i'w gofio ar un o arfordiroedd hyfrytaf ein gwlad a dysgais lawer.

Efallai fod yr enw Byddin yr Eglwys (nid Byddin yr Iachawdwriaeth) yn ddieithr i rai ohonoch. Bûm innau'n pendroni am yr enw. Yn sicr wrth gydweithio â hwy yr haf hwnnw, wnes i ddim gweld unrhyw agwedd filitaraidd yn dod i mewn i'w cenhadaeth, dim ond brwdfrydedd heintus a chynnes. Cafodd Byddin yr Eglwys ei sefydlu yn 1882 gan y Prebendari Wilson Carlile sef offeiriad Anglicanaidd. Roedd Carlile wedi ymddiswyddo fel curad er mwyn treulio mwy o amser ar waith cenhadol mewn ardaloedd o amddifadedd mawr ynghyd â hyfforddi gweithwyr yn y maes. Cafodd Byddin yr Eglwys ei chydnabod gan Eglwys Loegr yn 1883 a daeth yn gymdeithas genhadol.

Yn drist iawn, rai misoedd yn ôl, deallwyd y byddai amryw o staff Byddin yr Eglwys efallai yn colli eu gwaith gan olygu y byddai'n rhaid i rai prosiectau cenhadol ac efengylu o bwys ddod i ben, yn anffodus. Mae gan Fyddin yr Eglwys 29 canolfan ym Mhrydain ac Iwerddon a'r rheini wedi eu lleoli mewn ardaloedd o amddifadedd dwys. Ar hyd y daith mae Byddin yr Eglwys wedi cyfuno efengylu gyda gweithredoedd. Diolch am fod gyda hwy ar arfordir Meirion sawl blwyddyn yn ôl – ni wnaf anghofio y profiad hwnnw yn yr haul.

Yma yn Neoniaeth Arfon, lle treuliais fy neugain mlynedd fel offeiriad, bûm gydag eraill yn gyfrifol yn 1989 am gyhoeddi Englynion Arfon sef cynnyrch yr annwyl Barchedig Robert Williams (R.W.) o Fôn a oedd yn brifathro, bardd ac offeiriad. Ymhlith y llu englynion roedd un i Fyddin yr Eglwys –

Y Fyddin yn ddiflino, yma'n wych  
Mewn nerth sydd yn brwydro:  
Â geiriau'r ffydd gyr ar ffo  
Y gelyn i wrthgilio.

### NEWID DEFNYDD ER LLES

Clywais fy mam yng nghyfraith yn dweud yn aml: "Dwi ddim am gael gwared ar hwn, fe ddaw yn ddefnyddiol i bwrpas arall." Hwyrach, er y pwyslais mawr heddiw ar ailgylchu, y dylid ystyried newid defnydd pethau yn amlach. Dyna oedd deisyfiad y diweddar Bab Ffransis ar gyfer un o'r cerbydau a elwir yn "popemobiles" – sef newid defnydd y cerbyd i greu uned iechyd symudol er budd plant Gaza. Ymddiriedwyd y gwaith o addasu'r cerbyd hwn i elusen Caritas Jerusalem, gan sicrhau ei fod yn cynnwys cyfarpar at ddefnydd meddygon, gyda'r gobaith o gyrraedd plant a anafwyd ac sy'n dioddef o effeithiau newyn yn Gaza.

### BWYD YN LLE GYNNAU

Yn nhalaith Michigan yn yr Unol Daleithiau, mae addoldy Presbyteraidd yn prynu cannoedd o ddrylliau amrywiol a phwerus gan bobl. Gwneir hyn er mwyn cael gwared â hwy a rhoi talebau i'w defnyddio mewn siop groser yn eu lle. Yn drist iawn dywedodd un o'r gweinidogion sef Chris Yaw, fod y cynllun wedi cychwyn yn dilyn defnydd o ddrylliau mewn ysgol leol ac ym Mhrifysgol Michigan gerllaw. Ysgytwol oedd clywed fod oddeutu pedwar can miliwn o ddrylliau yn yr Unol Daleithiau. Eleni sefydlodd Chris Yaw yr elusen "Gweinidogaeth Ddiarfogi" (Disarmory Ministries). Yn y flwyddyn 2023 saethwyd yn farw 2581 o blant a phobl ifanc yn America. Dymunwn yn dda i'r weinidogaeth arbennig hon.

# Croesi

gan **Dr Huw Tegid**

Yng ngherdd enwog y diweddar Athro Gwyn Thomas, mae'n cloi ei fyfyrdodau gyda'r geiriau:

> Y mae hen ddihareb Rwsiaidd sy'n dweud,  
> 'nid croesi cae yw byw.'  
> Cywir: croesi traeth ydyw.

Mae'r syniad o groesi o rywle neu'i gilydd i'r pen arall wedi cipio dychymyg sawl un dros y blynyddoedd. Aeth mwy na phum can mlynedd heibio ers i Fernão de Magalhães a Juan Sebastián Elcano gydweithio i hwylio'r holl ffordd o gwmpas y byd. Bydd nifer ohonom yn cofio am y prif gymeriad yn ffilm *Forrest Gump* yn rhedeg o un pen yr Unol Daleithiau i'r llall, gyda'r geiriau enwog *"That day, for no particular reason, I just decided to go for a little run"*. A tybed a oes rhai o'r darllenwyr wedi cerdded o un pen Clawdd Offa i'r llall, neu lwybr pererinion gogledd Cymru?


Gyda gwyliau'r haf ar y gorwel, bûm yn meddwl wrthyf fy hun y diwrnod o'r blaen am bethau i'w gwneud dros yr wythnosau nesaf, a meddwl tybed sawl ffordd sydd o groesi Ynys Môn. Dyma osod her i mi fy hun – ar hyd sawl un ohonynt, tybed, y gallwn i fynd o un pen yr Ynys i'r llall, a sawl dull teithio gwahanol y gallwn ei ddefnyddio?

Un o'r ffyrdd mwyaf hynafol o groesi'r Ynys a chyrraedd Caergybi oedd y dull a ddefnyddiwyd i fynd o Fiwmares i fyny'r Allt Goch i Lansadwrn, ar hyd lonydd (cul a gwledig erbyn hyn) i Langefni, ac ymlaen wedyn drwy Fodffordd, Bodedern a Llanynghenedl, cyn croesi'r Lasinwen i Ynys Cybi. Disodlwyd y ffordd honno pan agorwyd ffordd newydd Thomas Telford yn sgil codi pont enwog y Borth, a fydd yn dathlu ei deucanmlwyddiant y flwyddyn nesaf. Ar hyd y lôn honno – yr A5 – yr oedd pawb, bron, yn teithio i Gaergybi, tan i lôn ddeuol gyflym yr A55 gael ei hagor ar droad y ganrif hon wrth i faint a nifer y cerbydau gynyddu'n sylweddol. Honno, erbyn hyn, ydi'r ffordd gyflymaf o fynd o'r tir mawr i Ynys Cybi mewn car, er bod dull arall cyflym o deithio ar draws yr Ynys, hefyd, sef y trên o Lanfairpwll, drwy Fodorgan a Rhosneigr, ac ymlaen drwy'r Fali i Gaergybi.

Dyna bedwar llwybr o leiaf, felly, ac i bob un ei rinweddau. Os ydi rhywun ar ras, yna'r A55 piau hi, yn sicr, gyda'r trên a'r hen A5 yn ffyrdd da o gyrraedd pen draw'r daith yn gymharol hwylus, yn dibynnu ar eich dewis o ddull teithio. Ond am yr hen ffordd anghofiedig, wel, dyna lwybr i'w fwynhau pan nad oes brys yn y byd arnoch chi. Llwybr i'w gerdded neu fynd ar feic ar ei hyd, efallai, ac un sy'n rhoi gwell cyfle i chi sylwi ar bethau gwahanol.

Rhywbeth tebyg sydd gennym ni yn y pedair Efengyl yn y Beibl. Os ydi rhywun ar ras eisiau cyrraedd y pen, yna Efengyl Marc ydi'r A55, gyda modd gwibio drwy'r hanes ar 70 m.y.a. Digon tebyg i'w gilydd ydi hynt Mathew a Luc, yn debyg i'r teithiau ar y trên neu'r A5, efallai – digon o bethau difyr ar hyd y daith, a thipyn o gydredeg os ystyriwn ni'r trywydd drwy Lanfairpwll ac yna ar hyd y cob rhwng y Fali ac Ynys Cybi. Ond os mai taith hamddenol ydi'r bwriad, gyda chyfle i oedi a gweld pethau gwahanol, Efengyl Ioan ydi'r hen ffordd ar draws Môn – llwybr tra gwahanol ei natur i'r lleill, ond rhyw swyn rhyfeddol yn perthyn iddo.

Tybed beth fydd eich hanes chi dros yr haf? A fydd cyfle i groesi ynys neu draeth? Os ydych chi'n ffafrio darllen yn lle teithio, a fydd cyfle i ddarllen drwy un neu ragor o'r Efengylau? Pa ddull fydd yn mynd â'ch bryd chi, tybed – y ffyrdd pwyllog gyda chyfle i oedi yma ac acw, ynteu'r ffyrdd sy'n mynd â chi ar wib o'r dechrau i'r diwedd? Beth bynnag fydd yr hanes, mwynhewch yr haf, a phopeth a brofwch chi ar hyd y ffordd.



# Ynys Llanddwyn

## gan y Parchedig Carwyn Siddall




Cwestiwn sy’n gallu cynnig mwy nag un ateb yw ‘ble mae adref?’. I mi, mae dau ateb posib. Fel un gafodd ei fagu ym mhentref Niwbwrch, Ynys Môn, byddaf wrth deithio i weld fy rhieni a’r teulu ar y fam ynys yn dweud fy mod yn ‘mynd adref’ i’w gweld. Fodd bynnag, pan ddaw’n amser ffarwelio, dychwelaf adref i Lanuwchllyn. I un o’r llefydd hynny a alwaf yn ‘adra’ rwyf am fynd drwy gyfrwng yr erthygl hon – i Niwbwrch, ac i fan arbennig iawn, sef Ynys Llanddwyn.

### Dwynwen

Yr enw a gysylltir yn bennaf â’r lleoliad arbennig hwn, ac sy’n wreiddyn i’r enw presennol yw Dwynwen, nawddsant cariadon Cymru. Yn ôl traddodiad, merch i Brychan Brycheiniog ydoedd, ac yn byw yn y 5ed ganrif. Roedd yn un o nifer fawr o blant (oddeutu 24 yn ôl rhai); yn drawiadol iawn, un ohonynt oedd Ceinwen sef y santes a berthyn i blwyf Llangeinwen, filltir yn unig o Niwbwrch. Dywed y chwedl i Dwynwen syrthio mewn cariad â llanc ifanc o’r enw Maelon, ond nad oedd modd i Dwynwen ei briodi gan mai’r bwriad oedd iddi briodi â thywysog. Un noson, cafodd Dwynwen freuddwyd, ac ynddo gwelodd Maelon ar ffurf lwmp o iâ. Ymddangosodd angel iddi, a’i gwahodd i offrymu tri dymuniad. Ei dymuniadau oedd (1) y byddai Maelon yn dadmer, (2) gan na châi briodi Maelon, na fyddai’n priodi byth, a (3) fod pawb yn cael y cyfle i brofi ac adnabod gwir gariad.

Yn dilyn hyn, aeth Dwynwen mewn cwch, a phenderfynu, lle bynnag y glaniai’r cwch, y byddai’n sefydlu cell yno a byw fel lleian. Y man lle glaniodd oedd ynys fechan oddi ar arfordir de-orllewin Môn, a adnabyddwn heddiw fel Llanddwyn.

### Taith o amgylch Llanddwyn

Ar y rhaglen ‘Caniadaeth y Cysegr’ ar Radio Cymru’n ddiweddar, cefais y cyfle i dywys y gwrandawyr ar daith gerdded ddychmygol o amgylch Ynys Llanddwyn, ac yn yr un modd, cyn dirwyn yr erthygl hon i ben, gadewch i mi eich tywys chwithau yno. Rydw i’n cymryd y llwybr gogleddol i’r Ynys, i fyny ychydig o risiau serth i gychwyn, cyn cyrraedd y gwastad sy’n dilyn yr arfordir gyda golygfeydd tuag at Falltraeth a Bodorgan.

### Ffynnon Dwynwen

Maes o law fe gyrhaeddwn, ar y llaw dde, yr unig beth sydd ar ôl o gyfnod Dwynwen ei hun, sef y ffynnon. Mae hon yn un o sawl ffynnon ar yr ynys, ac yn gyrchfan i gariadon – pwy bynnag ydynt, beth bynnag eu cefndir, eu hiaith, eu diwylliant, eu rhywedd.

### Goleudy Tŵr Mawr

Wrth gerdded ymlaen, fe welwch o’ch blaen y goleudy eiconig, Tŵr Mawr. Dyma un o ddau oleudy ar yr ynys – yr ail un, Tŵr Bach, dafliad carreg oddi wrtho ar draws y morglawdd bach. Dau adeilad wedi eu codi ar gynllun y melinau gwynt. Dau adeilad a godwyd yn arwyddbyst i’r cychod deithio’n ddiogel i’r Fenai. Cofiwn mai Iesu yw goleuni’r byd sy’n ein tywys i adnabod Duw.

### Y Bad Achub

Wedi nythu’n daclus gerllaw Tŵr Bach, mae hen adeilad y Bad Achub. Eto, mae dau gwt bad achub yno – y llall yn nes i’r rhes tai y down atynt yn nes ymlaen. Gweithredodd y bad achub rhwng 1826 a 1907 ac achubwyd dros 100 o fywydau yn y cyfnod hwn. Roedd sawl aelod o’r criw yn byw yn y bythynnod, ac eraill yn cael eu galw drwy danio’r gwn mawr sy’n parhau i’w weld ar yr ynys heddiw, ond wedi symud bellach i fod o flaen y rhes bythynnod.

Onid ydym oll, ar brydiau, yn teimlo stormydd bywyd yn ein siglo a’n hysgwyd i’r byw, ac onid hyfrydwch yw gwybod, fel y morwyr gynt, y gallwn ninnau alw allan mewn gweddi, gyda sicrwydd ffydd y bydd Duw wrth law.

### Y bythynnod

Wel, rydym ni eisoes wedi cyfeirio at y rhes bythynnod. Mae lled-gyswllt teuluol rhyngom a rhai o deulu Llanddwyn gan i chwaer Dad briodi un o’r teulu, a hyfrydwch mawr i mi fyddai gwrando ar Yncl Owen yn sôn am y dyddiau a fu, a’i nain yn byw ar yr ynys. Amgueddfa fechan yn dweud y stori sydd yn un o’r tai erbyn heddiw, gydag un o’r lleill yn ail-greu cartref o’r oes a fu. Bu’r ynys yn gartref, ac yn llawn cyffro bywyd ar un adeg, ac mae’n bwysig cadw’r hanes hwnnw’n fyw rhag inni ei golli.

### Eglwys Dwynwen

Cymerwn y llwybr i lawr canol yr ynys rŵan, ac o’n blaen ar y chwith, dacw adfail eglwys Dwynwen, neu yn hytrach adfail eglwys ddiweddarach, yn sefyll ar leoliad cell wreiddiol Dwynwen. Un peth o’r eglwys hon sy’n dal i fodoli ac i gael ei ddefnyddio yw’r gloch, sydd bellach yn un o ddwy gloch eglwys Sant Pedr, Niwbwrch.

I rai, mae mynd i mewn i adeilad wedi ei neilltuo i addoli yn dod â theimlad o agosrwydd at Dduw. Ond, drwy rym yr Ysbryd, mae Duw yn llond pob lle, presennol ym mhob man. Teimlodd Dwynwen ei bresenoldeb yn y lle hwn yn y 5ed ganrif. Ei deimlo’n agos drwy’r weddi dawel, drwy fyfyrio ar ei Air. A boed i ninnau ganfod cysur presenoldeb Duw gyda ninnau, ble bynnag y byddwn.

### Y Groes

Wrth adael adfail yr eglwys, gwelwn groes yn sefyll o’n blaenau. Croes Geltaidd yw hon, un o ddwy groes yr ynys. I ddweud y gwir, roeddem wedi pasio’r llall, croes Dwynwen, yn gynharach. A dyna guriad calon y cyfan – croes wag Crist, croes sy’n datgan ei gariad, a’i fod yn fyw.

### Dirwyn y daith i ben

A dyna ni, gallwn gerdded y llwybr i lawr canol yr ynys, neu’r llwybr o amgylch glannau deheuol yr ynys yn ôl at y traeth. Ynys y cariadon, ynys Dwynwen. Boed i’r gyrchfan yma barhau i argyhoeddi pobl fod cariad yn rhodd i’w gofleidio, ac yn rhodd i bawb ei brofi. A boed i bob pererindod i’r ynys fod yn ysbrydoliaeth i ganfod cariad mwy na dim arall – cariad Duw.





# O’R PEN YMA

## *gan Angharad Tomos*



Rhybudd o flaen llaw...falle na fydd fy sylwadau yn or-boblogaidd y tro hwn. Byddaf yn cael rhybudd gan y genhedlaeth iau nad ydw i’n deall rhai materion, a bod eisiau i mi newid fy agwedd. Rydw i’n derbyn hynny. Ond rydw i hefyd yn meddwl weithiau fod gen i bwynt. Dwi’n cyfaddef fod ein magwraeth ni wedi bod yn rhy biwritanaidd o bosib. Fydda rhywun ddim yn cael gormod o gydymdeimlad ers talwm, ac roedd y pwyslais ar oroesi, doed a ddelo. Nid dyna’r ffordd o ddatrys problemau bob tro.

Ond erbyn heddiw gellid dadlau fod pethau wedi gwyro i’r eithaf arall. Ar bob silff ym mhob siop, mae beth wmbredd o lyfrau ‘self help’, a chaiff rhywun ei annog i ofalu am ei nyth. Mae pob seleb efo cwnselydd personol, a ffasiwn yr oes ydi edrych i mewn i’r hunan, bod ‘yn glên efo ni’n hunain’ a gwobrwyo ein hunain drwy’r amser. Wrth gwrs, mae’r byd gorllewinol yn cymryd mantais eithaf o hyn i wneud elw – yr ateb yw therapi drwy drin ewinedd, trin ein gwallt, sesiwn ymlacio, ail-wneud y tŷ, gwyliau moethus, pryd o fwyd, car newydd... Does dim pen draw ar y dulliau o fod yn glên efo ni’n hunain. Y perygl mawr ydi bod hyn yn magu pobl hunanol sydd ddim yn edrych allan ar y byd a gweld y problemau gwirioneddol mewn cymdeithas. Mae lot i’w ddweud o gyfrif ein bendithion, a chanolbwyntio ar rai llai ffodus na ni.

Emyn go hen ffasiwn gan uchelwr Albanaidd ac offeiriad, Norman MacLeod yw ‘Courage, brother, do not stumble’. Daeth y dôn yn boblogaidd gan mai Arthur Sullivan a’i cyfansoddodd (hanner y ddeuawd operatig, Gilbert a Sullivan) a byddem yn morio ei chanu yn yr Ysgol Sul, i eiriau Cymraeg Ben Davies o Gwmllynfell. Fel un a gychwynnodd weithio mewn pwll glo yn 13 oed, byddai Ben yn gyfarwydd â bywyd caled, ac yn y man daeth yn weinidog gyda’r Annibynwyr.

Dydi’r emynydd ddim yn smalio mai byd hawdd yw hwn, a pheth hawdd yw llithro, ond ffaith i lawenhau ynddi yw fod ‘seren i’n goleuo’. Rydan ni yn chwilio am mantras fydd yn rhoi nod ac ystyr i’n bywydau, ac mae un ardderchog yma – ‘Cred yn Nuw, a gwna dy waith’. Nid drwg o beth fyddai ail adrodd hyn bob bore wrth godi. Ddylen ni ddim dibynnu ar fympwy yr hunan, pan aiff pethau yn galed, nid drwg o syniad yw bod yn wrol, hyd yn oed os ydym wedi codi’r ochr anghywir o’r gwely, ac yn teimlo yn flin. ‘Blin neu beidio’ medd Ben Davies, rhaid credu yn Nuw a gwneud ein gwaith.

Os am therapi am ddim, yna beth am y cynghorion hyn:

*Paid ag ofni’r anawsterau.*
*Paid ag ofni’r brwydrau.*
*Paid ag ofni’r canlyniadau.*

Maent yn gynghorion chwyldroadol yn ein diwylliant ni. Does dim byd sy’n codi mwy o ofn ar bobl y Gorllewin nag ‘anawsterau’ a ‘brwydrau’. Mae holl ddiwylliant cyfoes yn pregethu wrthym fod y geiriau hyn bellach yn hen ffasiwn. Ac am beidio ofni’r canlyniadau – wel! Unrhyw beth sy’n golygu ein bod yn cael llai o ‘likes’ ar gyfrif ‘instagram’, dylid eu hosgoi fel y pla. Achos, os nad ydym yn cadw’n llygad ar y canlyniadau, mae yna adwaith.

*Cei dy farnu, cei dy wawdio lawer gwaith.*

Mae’r emynydd yn gwybod hyn yn iawn, ac yn ei dderbyn.

a beth yw’r ateb? *Na ofala ddim am hynny,...(Cred yn Nuw a gwna dy waith).*

Pan ydym yn honni fod bywyd yn gymhleth, mae’n werth canu hon i ddod â ni at ein coed!

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

## *Bethel, Rhiwbeina*

### PEN-BLWYDD ARBENNIG
Dymunwn yn dda i Arthur Jones wrth iddo ddathlu ei ben-blwydd yn 90 oed ym mis Gorffennaf. Hefyd dymunwn bob hapusrwydd i Carys a Dilwyn Jones sy'n dathlu eu priodas aur ym mis Awst.



### OEDFAON
Yn ystod mis Mai cawsom gyfle i groesawu i'r pulpud Noa Evans, Rhys ab Owen a Gwyndaf Roberts. Cawsom Sul arbennig hefyd ar Fai 22 pan oedd y gwasanaeth dan ofal un o'n haelodau ffyddlon, Llinos Howells, merch y diweddar Barchedig Tudor Davies, gweinidog gyda'r Wesleaid ac emynydd o fri. Rhoddodd Llinos sylwadau diddorol ar sawl un o'r emynau a hefyd cawsom glywed llais Siân Francis yn canu rhai ohonynt ar CD.


### DAU FEDYDD
Ar Fai 25 roedd yn bleser cael bod yn rhan o wasanaeth bedydd Alaw Haf, merch fach Lisa a Trystan. Roedd y gwasanaeth yng ngofal ein gweinidog, y Parchedig Evan Morgan, a seiliodd ei bregeth ar dri gair sef gwrando, gweithio a gobeithio. Roedd Alaw yn dawel iawn a thlws yn ei ffrog wen draddodiadol ac fel petai'n gwrando'n astud. Y Sul canlynol, cynhaliwyd gwasanaeth bedydd Tomos, ail fab Angharad a Gavin. Roedd ei frawd mawr, Alffi, wrth ei fodd yn cael bod yn rhan o'r achlysur.

### CODI ARIAN
Cynhaliwyd Bore Coffi yn y capel ar Orffennaf 10 i godi arian tuag at Ymchwil Canser.

**GOHEBYDD . GWENDA FRANCIS**

## *Bethel Prestatyn*

### PEN-BLWYDD ARBENNIG
Cyflwynwyd trefniant hyfryd o flodau i Miss Jane Ellis gan ei ffrind Rachel Purser i ddathlu pen-blwydd arbennig. Mae Jane wedi bod yn aelod ym Methel ers yn blentyn bach ac rydym yn ddiolchgar iawn iddi am ei gwasanaeth a'i gofal am blant yr Ysgol Sul ar hyd y blynyddoedd. Jane hefyd sy'n gyfrifol am addurno bwrdd y cyntedd ar achlysuron arbennig. Roedd pedwar aelod arall yn dathlu pen-blwydd yn ystod yr un wythnos sef Mrs Glenys Davies, Mr Gwyn Bartley, Rachel Purser a Bethan Mai. Braf oedd cael dathlu gyda nhw i gyd.





### POB HWYL
Dymunwn bob llwyddiant i'r bobl ifanc sydd wedi sefyll arholiadau TGAU a Lefel A – Arthur, Alaw, Gethin, Flora ac Alys – a phob hwyl i'r plant llai sy'n paratoi ar gyfer arholiadau dawnsio, mabolgampau'r ysgol a hyfforddiant rygbi. Pob hwyl i Gethin ac Alys sydd yn dilyn hyfforddiant Gwobr Dug Caeredin. Dyma nhw yn cychwyn ar eu taith gerdded a gwersylla dros nos.

### DYMUNIADAU GORAU
Mae nifer o'n haelodau yn methu ymuno yn yr oedfaon oherwydd gwaeledd. Anfonwn ein cofion annwyl at bob un ohonynt a chofiwn amdanynt yn ein gweddïau. Mae Mrs Eiry Parry adref o'r ysbyty ac yn gwella ac fe edrychwn ymlaen at ei gweld yn yr oedfaon yn fuan.

### DATHLU'R PASG
Cawsom wasanaeth arbennig ar Sul y Blodau eleni gyda nifer o'n haelodau yn cymryd rhan. Ymunwyd â'n chwaer Eglwys, Rehoboth, ar Sul y Pasg, mewn oedfa undebol ar gyfer holl eglwysi ein bugail, y Parchedig Brian Huw Jones. Roedd yn hyfryd cael cyd-addoli.

**GOHEBYDD . GWENDA HUMPHRIES**







### Y GYMANFA GANU GYD-ENWADOL
Roedd y Gymanfa Ganu Gyd-enwadol yn llwyddiant eto eleni. Diolch i'n ffrind Dilwyn Price am yr hwyl, y canu a'r dawnsio! Diolch i Arthur, Flora a Henry am berfformio unawdau offerynnol ar y dechrau ac i bawb a weithiodd yn ddiwyd i fwydo'r plant a'r oedolion ar ôl y difyrrwch.



## *Shiloh Newydd, Tregarth*

### GAIR O DDIOLCH
Diolch i bawb fu yma yn arwain yr oedfaon. Yn eu mysg mae ein gweinidog y Parchg Ddr Ian Morris, Aled Job, Ellie Jones a'r Parchedigion Philip Barnett, Hugh Pritchard a Megan Williams. Mae'n hyfryd cael croesawu pob un ohonoch.

### DRWS AGORED
Mae bore Gwener yn Shiloh yn reit brysur ac mor braf ydi gweld trigolion y pentre a rhai o Lanfairpwll a Chaernarfon yn cefnogi. Mae na hen sgwrsio ac yfed te a choffi a'r digwyddiad yn hwyliog. Daeth Edgar Roberts o Lanfairpwll â llyfr o farddoniaeth o waith William Griffiths, Hen Barc, Llanllechid un bore Gwener. Dyma englyn o'i waith:-

**Capel Siloh, Tregarth**
Tŷ i'r egwan gael trigo – o dan nawdd
Duw y nef ydyw Siloh;
Nwydd i fyd geir ynddo fo,
A heddwch ond troi iddo.


Ni fydd oedfaon yn ystod Awst ond bydd Drws Agored yn parhau bob wythnos. Dyma rai o'r cyfeillion yn cyrraedd ar fore Gwener.



### CODI ARIAN AR GYFER TŶ GOBAITH
Cymerodd Mari Rowlinson, merch Ffion a Paul, ran mewn abseil noddedig i lawr Tŵr Marcwys, gan godi £300 ar gyfer hosbis plant Tŷ Gobaith (cyfanswm pawb a gymerodd ran yn £27,000). Diolch am bob cefnogaeth.

### DYMUNIADAU GORAU
Ein cofion a'n dymuniadau gorau i Norah O'Brien, Islwyn Evans, Noreen Jones a phawb sydd heb fod mewn cyflawn iechyd. Gwellhad llwyr a buan i Mona Williams, a un sydd yn aml yn troi i mewn i Drws Agored ond sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**GOHEBYDD . GWENDA DAVIES**



## *Saron, Bethel, Arfon*

### YMDDEOLIAD
Wedi deng mlynedd ar hugain o lanhau a gofalu am Ysgol Gynradd Bethel, mae Mrs Delyth Williams, ein cyd-drysorydd ni yma yn Saron, wedi ymddeol. Yn ystod ei chyfnod diwethaf yn y gwaith hi oedd 'Dynes y Lolipop' hefyd a mawr fu ei gofal dros y plant. Dymunwn ymddeoliad hapus iawn iddi a phob bendith.

### CAU'R CAPEL
Yn drist iawn, byddwn yn cau drws Capel Saron am y tro olaf ddiwedd y mis hwn. Mae'r lleihad yn nifer yr aelodau a chostau cynyddol yn ei gwneud hi yn amhosib i ni gario mlaen. Bydd cyfarfod arbennig bnawn Sul Gorffennaf 27 am ddau o 'r gloch, dan ofal y Parchedig Philip Barnett.

Diolch wnawn am i Ti gynnal
 breichiau'n tadau ar y daith,
codi temlau er d'ogoniant,
 treulio'u bywyd yn dy waith;
trafod pregeth yn y gweithle,
 sôn am hwyl y cyrddau mawr;
ar ôl ddoe mor ogoneddus
 rho gyfeiriad inni'n awr.

**GOHEBYDD . RJ**

## *Ardal Bathafarn*



**YN LLYS AWELON**

Hoffem ddiolch i staff Llys Awelon am eu croeso i ni bob amser; rydym mor falch o gael addoli yno a bod y preswylwyr yn rhan o'r teulu annwyl. Er y tristwch fod adeilad capel Bathafarn bellach wedi ei werthu, rydym yn falch fod y prynwr yn hanu o Felin y Wig ger Corwen. Bydd gennym i gyd fel aelodau a ffrindiau'r capel atgofion hapus i'w trysori yn sgil yr holl flynyddoedd. Rydym yn falch iawn, er cau yr adeilad, fod yr Achos yn parhau.

**OEDFAON**

Yn ystod Mehefin a Gorffennaf cafwyd oedfaon dan ofal Elwyn Ashford Jones, y Parchedig Dilys Jones, y Parchedig Marc Morgan ac Elizabeth Jones. Bu Elizabeth hefyd yn cynnal oedfaon yng Nglyndyfrdwy. Cyfeiliwyd gan Rhian ac Ann Plas Isaf a'r llywyddion oedd Rhodri ac Elved. Diolch o galon i Cyril am fod wrth y drws yn croesawu pawb i Lys Awelon. Mae'n effeithiol a gofalus iawn fel ceidwad y porth.

**PROFEDIGAETH**

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at Gwyn Williams a'r teulu, o golli brawd yng nghyfraith ac ewythr annwyl o ardal Bae Colwyn. Meddwl amdanoch yn eich chwithdod. Bu i Meta ac Elizabeth golli nai, Andrew Winston Lloyd, yn drychinebus mewn damwain gwaith ym Metws yn Rhos. Ein cydymdeimlad diffuant at ei deulu bach.

**DATHLU A DYMUNIADAU GORAU**

Llongyfarchiadau calonnog i Audrey Jones ar enedigaeth gor-ŵyr arall sef Iori Llywelyn, mab i Betsan ac Aron a brawd i Magi ac Ethni, ŵyr hefyd i Clwyd ac Eleri. Pob bendith a hapusrwydd i'r teuluoedd i gyd.

Llongyfarchiadau hefyd i Gwyn Williams ar ddathlu ei ben-blwydd yn 92 oed. Dyma ei lun gyda'i or-wyrion a'i or-wyresau. Mae Gwyn ymysg ein ffyddloniaid yn Llys Awelon. Pob bendith a hapusrwydd iddo.

Pob dymuniad da i bawb dros wyliau'r haf a llawer o ddiolch am yr holl weithgarwch a'r cyfeillgarwch. Anfonwn ein cofion anwylaf at bawb sy'n methu dod i'r oedfaon oherwydd gwahanol amgylchiadau.

**GOHEBYDD . ELIZABETH JONES**

## *Tabernacl, Llanfyllin*

**GWEITHREDU DROS BLANT**

Eleni eto, trefnwyd oedfa i ddwyn sylw at yr elusen arbennig hon, dan ofal Ruth Weston gydag aelodau eraill yn cynorthwyo. Gwnaed casgliad tuag at yr elusen.

**CYDYMDEIMLO**

Cydymdeimlwn yn ddwys â Llywela Roberts yn ei phrofedigaeth annisgwyl o golli ei phriod, Elwyn. Hefyd cofiwn am ei fab, Rhys a'r teulu, a'i ferch Elin a'r teulu yn eu tristwch o golli tad a thaid mor annwyl. Bu Elwyn yn drysorydd trylwyr a gofalus yn y Tabernacl am lawer blwyddyn. Mae ein cydymdeimlad hefyd gyda Tom a Mair Ellis sydd wedi colli eu brawd yng nghyfraith, Gareth. Roedd Gareth yn frodor o Lanrhaeadr ym Mochnant ac wrth ei fodd yn cael sgwrs gyda rhywun o ardal Tanat Cain. Cydymdeimlwn yn ogystal ag Alwenna Evans sydd wedi colli ei chwaer yng nghyfraith yn ardal Llanrwst. Cofion at y teuluoedd oll yn eu colled.

**GWELLHAD BUAN**

Gwellhad buan a llwyr i Mair Ellis a dymuniadau gorau i Tom, ei phriod, wrth iddo aros am driniaeth. Mae'r ddau yn rhoi o'u gorau i'r capel a diolchwn yn fawr iddynt.

**GOHEBYDD . ALWENA FRANCIS**

## *Salem, Rhyd y Foel*

**LLONGYFARCHIADAU**

Llongyfarchiadau calonnog i Mali Grug Owen ar ddod yn ail drwy Gymru gyfan yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Dur a Môr, Margam, ar yr unawd o dan 12 oed. Arbennig iawn.



**GRADDIO**

Llongyfarchiadau i Beth Megan Roberts ar dderbyn Gradd B.A. gydag Anrhydedd yn y Dosbarth Cyntaf, Addysg Gynradd gyda statws Athro Cymwysedig o Brifysgol Metropolitan Caerdydd.

**PENNOD NEWYDD**

Dymuniadau gorau i Mari, Gwil a Mali, sydd yn dechrau pennod newydd yn eu bywyd addysgol ym mis Medi, yn Ysgol Uwchradd y Creuddyn. Mae'n dda clywed fod Mali Faith yn gwella wedi wythnosau pryderus ac yn cael dychwelyd i'r ysgol.

**GWASANAETH O DAN OFAL ESTHER**

Dydd Sul 15 Mehefin cawsom sgwrs a sleidiau diddorol o dan ofal Esther. Mae Esther yn aelod o'r Soroptimyddion Rhyngwladol, a gafodd gais beth amser yn ôl gan ysgol breswyl yn Uganda am arian tuag at adeiladu ystafell gysgu i'r merched. Roedd y merched hyn yn cerdded 20 milltir y dydd i'r ysgol ar hyd ffordd beryglus, a llawer ohonynt yn amddifad oherwydd afiechyd AIDS. Llwyddwyd i godi'r swm angenrheidiol ac fe aeth y gwaith adeiladu yn ei flaen. Bellach mae gan y merched ystafell gysgu diolch i waith diflino y Soroptimyddion yn codi'r arian.

**GOHEBYDD . SIÂN PRICE**



## *Seion, Glyndyfrdwy*

**DRWS NEWYDD**

Clywir yn fynych y dyddiau yma am gau drysau capeli, ond prynu drws newydd fu hanes Eglwys Seion, Glyndyfrdwy yn ddiweddar. Yn fuan cyn cyfnod y clo, derbyniwyd rhodd ariannol er cof am un â chysylltiad agos iawn â'r capel. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, daeth Pat Herriott, geneth ifanc o ddinas Birmingham yn efaciwî i Lyndyfrdwy. Mynychodd Pat Eglwys Seion ynghyd â'r Ysgol Sul a'r ysgol leol gan ddod yn rhugl yn y Gymraeg. Ar ddiwedd y rhyfel, dychwelodd at ei rhieni i ganolbarth Lloegr, ond parhaodd y cysylltiad â Glyndyfrdwy ar hyd y blynyddoedd. Dymuniad y teulu oedd ein bod yn defnyddio'r arian tuag at brynu rhywbeth at ddefnydd y capel. Felly penderfynwyd rhoi'r arian tuag at gael drws a ffenestr newydd a dyma lun o rai o aelodau'r capel ynghyd ag Elizabeth Jones, fu'n cynnal oedfa yno ar ddydd Sul, Gorffennaf 6, o flaen y drws newydd. Mae'r capel ar fin yr A5 wrth i chi fynd trwy Lyndyfrdwy, felly tro nesaf y byddwch yn gyrru heibio'r pentref, edrychwch gydag un llygad ar y drws smart, a'r llygad arall ar y ffordd!

**GOHEBYDD . NIA MORRIS**




# Gweinidogaeth Bro Tanat Cain

Heblaw am newyddion o gapel Tabernacl, Llanfyllin, mae yna gryn amser wedi mynd heibio ers i hanes o gapeli eraill sy'n aelodau o Weinidogaeth Bro Tanat Cain ymddangos yn y *Gwyliedydd*. Felly, dyma geisio gwneud yn iawn am y diffyg yma. Mae yna un ar ddeg o gapeli o dri enwad o dan ambarél y Weinidogaeth Bro, o dan weinidogaeth y Parchedig Gwyndaf Richards. Mae pump sy'n rhan o'r Eglwys Fethodistaidd ynghyd â thri capel Presbyteraidd a thri Annibynwyr, gydag aelodaeth o ryw 200. Yn achlysurol, byddwn yn cynnal gweithgareddau ar y cyd. Yn lle'r Gymanfa Ganu draddodiadol, rydym ers tair blynedd bellach wedi mwynhau Oedfa o Fawl, lle mae aelodau o'r gwahanol gapeli yn dewis emyn i'w ganu gan roi rheswm byr am eu dewis. Fe gynhaliwyd yr Oedfa eleni yng nghapel Sardis, Llanwddyn ar nos Sul, Mai 11eg. Fe wnaed y trefniadau gan Mrs Lynda Thomas, a'r organydd oedd Mrs Margaret Davies. Ar wahân i'r emynau cynulleidfaol, cafwyd deuawd gan y brodyr Lloyd ac Edwin Davies o Lansanffraid. Gwnaed casgliad tuag at Gymorth Cristnogol yn ystod yr Oedfa.

Daeth nifer dda ynghyd hefyd i Neuadd Gyhoeddus Llanrhaeadr ym Mochnant ar 24 Mai, i fwynhau paned a sgwrs ac i godi arian tuag at Hosbis Tŷ Gobaith, Croesoswallt a Chymorth Cristnogol. Llwyddwyd i godi bron i £900. Diolchwyd i'r swyddogion, Mrs Bronwen Jones a Mr Peter Williams ac i'r rhai a ofalodd am y lluniaeth.

**GOHEBYDD . TOM MORRIS**

## *Pendref, Dinbych*

**OEDFAON A CHYMANFA**

Yn ystod yr wythnosau diwethaf cawsom y fraint o groesawu Maryl Rees, y Parchg Marc Morgan, Elizabeth Jones a'r Hybarch Bernard Thomas i bulpud Pendref a mawr yw ein diolch iddynt oll am eu gwasanaeth. Lle na bu pregethwr cynhaliwyd cyfarfodydd gweddi hynod o fendithiol dan ofal nifer o aelodau'r capel. Blaenor mis Mai oedd Medwyn Jones gyda Hywel Evans yn gofalu am fis Mehefin. Diolch unwaith eto i Vera Savage am gyfeilio ac i Gwyn Williams am arwain y canu.

Ar ddydd Sul Mai 11eg cynhaliwyd oedfa undebol Cymorth Cristnogol Dinbych yn Eglwys Sant Thomas, dan arweiniad y Parchg Gareth Roberts.

Dydd Sul Mehefin 29ain ymunodd nifer o aelodau Pendref â'r Gymanfa gyd enwadol fendithiol a hwyliog ym Methel Prestatyn. Mwynhawyd paned wedi ei threfnu gan aelodau Bethel ar derfyn yr oedfa.

**DYMUNIADAU GORAU**

Dymunwn wellhad buan i Margaret Sellers yn dilyn triniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd. Ein cofion hefyd at ein haelodau sydd ar hyn o bryd, am wahanol resymau, yn methu â mynychu'r oedfaon.

**GOHEBYDD . MARY JONES**

## *Carmel, Moelfre, Abergele*

**DWY BRIODAS**

Fel maen nhw'n dweud, ar ôl i chi ddisgwyl yn hir am fws, bydd dau yn siŵr o droi i fyny ar unwaith! Rhywbeth tebyg sydd wedi digwydd yng Ngharmel – nid bysus ond priodasau! Capel bach yw hwn, cartref ysbrydol i ddyrnaid o deuluoedd, ond o blith y rhain bu dwy briodas eleni. Lleolir y capel ar ffordd fechan oddi ar y ffordd gefn o Fodelwyddan i Fetws-yn-Rhos ac mae'n hawdd ei fethu. Ond gofalodd cyfeillion fod pawb o'r gwesteion yn troi yn y man cywir! Priododd Eleri a Meirion ar 29 Mawrth, a Llion ac Eluned ar 30 Mai, y ddwy briodas dan ofal eu gweinidog, y Parchg Marc Morgan. Pob bendith arnynt.


**GOHEBYDD . MARGARET MORGAN**







# Ar gyfer y plant



## Y Deg Gorchymyn



**Aeth Moses, arweinydd yr Israeliaid, i fyny i fynydd sanctaidd Sinai. Yno cafodd ddeg gorchymyn gan Dduw, sy'n dangos sut y dylai pobl fyw. Rhoddodd Moses y rhain i'r bobl ar lechau o garreg.**

1. Fi yw'r Arglwydd eich Duw. Dydych chi ddim i gael unrhyw dduwiau eraill ar wahân i mi.
2. Peidiwch â gwneud delw neu lun ac addoli hwnnw.
3. Peidiwch â dweud enw Duw mewn ffordd amharchus.
4. Cadwch y seithfed dydd o'r wythnos, y Saboth, yn sanctaidd.
5. Parchwch eich tad a'ch mam.
6. Peidiwch â llofruddio.
7. Peidiwch â bod yn anffyddlon i'ch gwraig neu ŵr.
8. Peidiwch â dwyn.
9. Peidiwch â dweud celwydd.
10. Peidiwch â bod yn genfigennus.

**Beth yw'r 6 gwahaniaeth rhwng y ddau lun yma o Moses yn derbyn y Deg Gorchymyn?**

